

Cofnodion o Gyfarfod Cyngor Cymuned Llangeitho a gynhelir ar nos Lun
7 Hydref 2019 yn Ffestri Capel Llwynpiod am 8 o'r gloch.
Minutes of Llangeitho Community Council Meeting held on Monday,
7 October 2019, in Llwynpiod Chapel Vestry, at 8pm

Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod.
The Chair welcomed everyone to the monthly meeting.

Presennol/Present

Cyng Gwenfair Owen (Gadair/Chair), Gerwyn Ebenezer, Emyr Jones, Myrddin James, Daniel Thomas, Eirian Jones, John Evans a Cyng Rhodri Evans

Ymddiheuriadau/Apologies – Cyng Gwilym Evans, Dafydd Morse, Beryl Evans, Paul Rooke, Rhian Turner a PCSO John Evans

Datgan Diddordeb/Declaration of Interest – Neb / No one

Adroddiad yr Heddlu/Police Report – Yn absenoldeb yr heddlu derbyniwyd neges fod yna 'Wythnos Ymwybyddiaeth Yr Heddlu' yn y dyfodol agos, dyddiad i'w gadarnhau.
In the absence of a police officer, a message was received, however, that there would be a Police Awareness Week, with the date to be confirmed.

Cofnodion y cyfarfod diwethaf/Minutes of previous meeting

Cynnig / Proposed: Cyng John Evans

Eiliwyd / Seconded: Cyng Daniel Thomas

Materion yn codi o'r cofnodion/Matters arising from minutes

- Ymateb wedi'u dderbyn oddi wrth Mr Cliff Bates o'r Cyngor Sir ynglŷn â'r polyn fflag i'w ddodi ym mharc Llangeitho, gan fod tipyn o wybodaeth ar yr e-bost cytunwyd i'r Clerc i'w gylchredeg i'r holl gynghorwyr a'i drafod yn y cyfarfod nesaf.
- *Response received from Mr Cliff Bates from the County Council with regard to the flagpole which it has been suggested should be erected in Llangeitho's park. As there was a great deal of detail in his e-mail, it was agreed that the Clerk should distribute the e-mail to all councillors and it would be discussed at the next meeting.*
- Ni dderbynnir unrhyw ymateb hyd yma oddi wrth Julie Osmond, CADW am y gwaith i'w wneud ar y milwr ar gylchfan Llangeitho.
- *No further response from Julie Osmond, CADW, with regard to the work to be done on the soldier monument on Llangeitho square.*
- Cyng Rhodri Evans wedi cysylltu â Ms Lowri Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol a Mrs Glynis Davies ynglŷn â'r costau etholiadol yn dilyn etholiad, ac roeddent yn mynd i edrych nol yr archifau i weld faint oedd Cyngor Cymuned Llangeitho wedi'u dalu dros y blynyddoedd.
- *Cllr Rhodri Evans has consulted with Ms Lowri Edwards, Leading Corporate Officer, and Mrs Glynis Davies, about the election costs following on from an election. They were going to look in the archives to see how much Llangeitho Community Council had paid over the years.*
- Cyng Rhodri Evans wedi bod yn siarad â Johnathan Eirug am y manylion gwreiddiol yng nghontract Jon Halle, Shareenergy, Small Wind Co-op â'r fferm wynt Troedybryn, Llangeitho, ond ni soniwyd dim am y cytundeb arian yn y contract gwreiddiol.
- *Cllr Rhodri Evans has spoken to Jonathan Eirug about the original details in the contract of Jon Halle, Shareenergy, Small Wind Co-op and the wind farm at Troedybryn, Llangeitho. It was noted that there was not a financial agreement in the original contract.*
- Ddim wedi'u wneud am y twll yn y ffordd/culvert wedi cwmpo ar y gornel sy'n troi lan am Bronaeron o Parchrhydderch eto.
- *No work has been done yet on the hole in the road/collapsed culvert on the corner which turns up to Bronaeron from Parchrhydderch.*
- Golau lamp stryd gyferbyn a Glynderwen ddim wedi'u hadnewyddu hyd yma, Cyng Rhodri Evans i drafod efo Mr Simon Bray.
- *Streetlamp opposite Glynderwen has still not been renewed. Cllr Rhodri Evans to discuss this with Mr Simon Bray.*
- Twll wrth ymyl y ffordd rhwng Cnwc y Barcud a Cae Melyn ddim wedi derbyn sylw hyd yma. Cyng Rhodri Evans i siarad â'r Cyngor Sir.

- *Hole in the roadside between Cnwyc y Barcud and Cae Melyn still hasn't had any attention. Cllr Rhodri Evans to speak to County Council about this.*
- *Llythyr o ddiolch wedi'u dderbyn oddi wrth Bwyllgor Treialon Cŵn Defaid Rhyngwladol am y rhodd ariannol.*
- *Letter of thanks received from the committee of the International Sheepdog Trials for the financial assistance.*
- *Perchnogion Edelweiss, Penuwch wedi cysylltu ag yn ymddiheuro am beidio torri'r clawdd ond yn gofyn i'r Cyngor i awgrymu rhywun yn yr ardal sy'n gallu torri'r clawdd iddynt. Hefyd, gofynnwyd a byddant yn medru mynychu'r cyfarfod nesaf o'r Cyngor i gwrdd â'r cynghorwyr. Cytunwyd i'w gwahodd i'r cyfarfod nesaf a gynhelir ar nos Lun 4ydd o Dachwedd yn Festri Capel Penuwch gan fod o'n agosach iddynt gyrraedd ac awgrymwyd fod mab Cyng Emyr Jones yn mynd i Plas Newydd i dorri'r clawdd ac mi fydda yn fodlon galw i weld perchnogion Edelweiss yr un pryd.*
- *The owners of Edelweiss, Penuwch, have been in touch apologising that the hedge has not been cut and also asking the Council to suggest someone from the area to do the work. Also, they requested that they would like to attend the next meeting of the Council to meet the councillors. It was agreed to invite them to the next meeting, to be held on Monday, 4 November, in Penuwch Chapel vestry, as it would be closer to their home. The son of Cllr Emyr Jones was suggested as being able to go to cut the hedge – he was also cutting hedges in Plas Newydd and could call on the owners of Edelweiss at that time.*
- *Ymateb wedi'u hanfon i'r Cyngor Sir am yr 'Ymgynghoriad ynghylch safleoedd posib ychwanegol – Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion newydd (CDL12) 2018–2033' a fi'n dod i ben ar 12 Medi 2019. Diolchwyd i Cyng Gwilym Evans, Cyng Emyr Jones, Cyng Rhodri Evans a Chyng Gwenfair Owen am y gwaith a wnaed ar yr ymateb.*
- *Response sent to County Council about the 'Consultation about possible extra locations – new Local Development Plan (CDL12) 2018–2033' which concluded on 12 September 2019. Cllrs Gwilym Evans, Emyr Jones, Rhodri Evans and Gwenfair Owen were thanked for their work on the Community Council's response.*
- *PCSO John Evans wedi bod yn cadw llygad ar sefyllfa'r parcio oddi amgylch y cylchfan yn Llangeitho ac wedi cael gair a nifer o bobl ynglŷn â'r parcio.*
- *PCSO John Evans has been keeping an eye on the parking situation around the roundabout in Llangeitho, and has had a word with several people about their parking.*
- *Ni fedrodd y Cadeirydd mynychu'r cyfarfod cyffredinol blynyddol Un Llais Cymru eleni.*
- *The Chair was unable to attend the Annual General Meeting of One Voice Wales this year.*
- *Clerc wedi ysgrifennu at nifer o gyfeiriadau ynglŷn â'r diffyg gwasanaeth fan symudol y swyddfa bost yn Llangeitho ers yr haf ond dim llwyddiant hyd yma i ddatrys y broblem. Cyng Daniel Thomas i ddod o hyd i gyfeiriad mwy pwrpasol i gwyno iddynt yng Nghaerdydd. Clerc i gysylltu â Siop Felinfach am rif cyswllt â Chlerc Cyngor Cymuned Lledrod i weld beth yw'r sefyllfa ganddynt yn Bronant a Lledrod, hefyd, Cyng Rhodri Evans i gysylltu â Ben Lake, Elin Jones â'r Cyngor Sir.*
- *Clerk has contacted many with regard to the lack of a mobile Post Office in Llangeitho since the summer, but has had little feedback in order to resolve the situation. Cllr Daniel Thomas has agreed to look for another more direct contact to complain to in Cardiff. Clerk to contact Felinfach shop for a contact number and also to contact the clerk of Lledrod Community Council to see what the situation is like in Bronant and Lledrod. Cllr Rhodri Evans to contact Ben Lake, Elin Jones and the County Council.*
- *Soniwyd nid oedd Cyngor Sir yn bwriadu torri'r cloddiau unwaith yn ragor – hefyd soniwyd nad oedd y gwasanaeth wedi'u gyflenwi eleni'r un fath a'r arfer.*
- *It was noted that the County Council would not be cutting the hedges again (this year) – it was also noted that the service hadn't been the same as in past years.*
- *Trafodwyd yr ymgynghoriad ynglŷn â gwaredu ffonau talu BT o fewn y gymuned a soniwyd bod nhw'n bwriadu gwaredu'r blwch ffôn ar sgwâr Stags Head. Cytunwyd i'r Cadeirydd ysgrifennu atynt trwy law'r Clerc yn ceisio ei cadw rhag ofn bod signal y ffonau symudol ddim ar gael yn y gymuned, gan nodi fod y signal ym mhentref Llangeitho yn wael ta beth.*
- *The consultation for the doing away with of BT pay phones in the community was discussed and it was noted that BT were planning to dispose of the phone box on Stags Head square. It was agreed that the Chair should write to them, via the Clerk, asking them to keep the phone box, as the mobile phone signal in the community was unreliable and the signal in Llangeitho even worse.*

Gohebiaeth/Correspondence

- *Poster wedi'u dderbyn oddi wrth Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn ein hannog i fynd am y brechiad ffliw.*
- *Posters received from Hywel Dda University Health Board urging every one to have a flu jab.*

Cyfrifon/Accounts

- Balans y banc ar / *Balance in the bank on 30.09.2019* £6,162.04
- Cyflog y Clerc (Mis Medi) / *Clerk's salary (September)* £106.36
- Gofynnir i'r cynghorwyr dechrau meddwl am ffigwr ceisio am praesept 2019-20 erbyn cyfarfod mis Rhagfyr.
- *The councillors were requested to start thinking of the precept figure for 2019–20, by December's meeting.*
- Derbyniwyd canlyniad yr archwiliad allanol gan nodi'r pwyntiau isod;-
- *These are the results of the recent external audit; the following were noted:*
 - Ddylai'r Cyngor Cymuned cyhoeddi'r Hysbysiad Pennu Dyddiad i Etholwyr Arfu eu Hawliau ar y gwefan.
 - *Community Council should announce/publish the Notice of Appointment of Date for the Exercise of Electors' Rights electronically.*
 - Cyngor ddim wedi mabwysiadu set o Reolau Sefydlog, sef set o reolau yn datgan sut mae'r Cyngor yn cynnal eu busnes yw Rheolau Sefydlog. Gellir gweld copi o'r Rheolau Sefydlog gan Un Llais Cymru neu SLCC. Gan nad oedd set o reolau wedi'u fabwysiadu gan y Cyngor ddylai'r honiad 1 a 2 ar y Datganiad Llywodraethu Blynyddol (Rhan 2) fod yn 'Na'.
 - *Council had not adopted a set of Fixed Rules, i.e. the set of rules which states how the Council runs its business. A copy of the Fixed Rules can be obtained from One Voice Wales or SLCC. Because this set of rules had not been adopted by the Council, statement 1 and 2 on the Annual Governing Statement (Part 2) should have been 'No'.*
 - Cyngor ddim wedi mabwysiadu Rheoliadau Ariannol. Fframwaith sy'n nodi systemau ariannol a gymeradwywyd gan y Cyngor yw'r Rheoliadau Ariannol. Gan nad oedd set o reoliadau ariannol gan y Cyngor ddylai'r honiad 1 & 2 ar y Datganiad Llywodraethu Blynyddol (Rhan 2) fod yn 'Na'.
 - *Council has not adopted Financial Rules, which is the framework which notes financial systems recommended by the Council. Because this set of financial rules had not been adopted by the Council, statement 1 and 2 on the Annual Governing Statement (Part 2) should have been 'No'.*
 - Archwiliwr Mewnol wedi cwblhau'r honiad 'Do' yn anghywir ynglŷn â chronfeydd ymddiriedolaeth, ond gan nad yw'r Cyngor yn unig ymddiriedolwr nac yn gyfrifol am reoli cronfeydd neu asedau ymddiriedolaeth, ateb yr honiad bocs 11 ddylai fod yn 'Amh'.
 - *Internal Auditor claiming 'Yes' was incorrect with regard to trust reserves, but, as the Council is not the only trustee, nor responsible for governing the reserves or trust assets, the statement in box 11 should have been 'N/A'.*
 - Nodwyd yn yr archwiliad fod gan y Cyngor Cymuned dros 1.09 gwaith mwy na praesept blynyddol yn y cronfeydd wrth gefn. Ddylai'r Cyngor ystyried y lefel o gronfeydd wrth gefn sydd ei hangen, ac ystyried cymryd camau priodol i leihau'r lefel o gronfeydd wrth gefn yn y dyfodol.
 - *It was noted in the audit that the Community Council had over 1.09 times greater financial reserves than its current annual precept. The Council should consider the level of reserves that is necessary, and take appropriate steps to decrease the level of reserves in the future.*
 - Mae'r Cyngor wedi ateb 'Do' i Focs 3 ar y Datganiad Llywodraethu Blynyddol (Rhan 2) mewn perthynas â phwyllgorau ac is-bwyllgorau. Gan nad oes yna bwyllgorau nac is-bwyllgorau wedi'u ffurfio, felly dylai 'N/A; fod ym mocs 3.
 - *The Council had written 'Yes' in Box 3 of the Annual Governing Statement (Part 2) with regard to committees and sub-committees. As there are no committees and sub-committees, 'N/A' should have been written in Box 3.*
 - Archwilydd Mewnol wedi ysgrifennu £7,700 mewn camgymeriad ym mocs 7, 9 a 11, lle ddylai fod yn £7,770.
 - *Internal Auditor had written £7,700 by mistake in boxes 7, 9 and 11. It should have been £7,770.*
 - Archwilydd mewnol wedi camddeall ymateb bocs 6 a chadarnhau nad yw'n rhoi adroddiad rheolaidd i'r Cyngor ond gan fod y Clerc/Swyddog Cyllid yn paratoi adroddiad yn fisol ddylai'r bocs ddarlenn 'Do' yn honiad bocs 6 – system o reoli arian.
 - *Internal Auditor had misunderstood the response in Box 6 and confirmed that he did not give a regular report to the Council but that the Clerk/Financial Officer prepared a monthly report. So Box 6 should have had 'Yes' in it – system of managing finance.*

Derbyniwyd yr uchod ar gynnig Cyng Daniel Thomas ac eiliwyd gan Cyng Myrddin James.
The above was approved on the proposition of Cllr Daniel Thomas and seconded by Cllr Myrddin James.

Cyngor Sir Ceredigion County Council

Trafodwyd y ceisiadau cynllunio isod a cytunwyd i'w cefnogi:

The following planning applications were discussed and it was agreed to support them:

Ymgeisydd/Applicant: Alison Mason
Safle/Site: Penrallt, Llangeitho
Y Bwriad/Proposal: Extension to dwelling

Ymgeisydd/Applicant: Esler
Safle/Site: Yr Onnen, Penuwch
Y Bwriad/Proposal: Construction of a new sewing room extension on the site of the existing porch. Adaptation of the adjoining garage/workshop building into a fully accessible bedroom with accessible en-suite bathroom.

Ymgeisydd/Applicant: R Evans Evenance Investment Co Ltd
Safle/Site: Gilfachgwyddil, Llangeitho
Y Bwriad/Proposal: Erection of 2 store extension

Ymgeisydd/Applicant: M Lister
Safle/Site: Penuwch Inn, Penuwch
Y Bwriad/Proposal: Extension of kitchen to provide increased catering capability

Gwybodaeth wedi'u dderbyn o'r Cyngor Sir am hysbyseb a fydd yn mynd yn y papurau lleol yn fuan am 'Gwasanaethau Ategol ar gyfer Clirio Eira'.

Information received from County Council with regard to an advert which will go in local newspapers shortly inviting individuals to help with the ancillary service of clearing snow.

Un Llais Cymru/One Voice Wales

Dim i adrodd. / *Nothing to report.*

Unrhyw Fater Arall/Any Other Business

- Cais wedi'u dderbyn, trwy law Cyng Emyr Jones oddi wrth Mr Will Evans, Penuwch am gefnogaeth ariannol i brynu boc pwrpasol i gadw peiriant di-ffib sydd i'w leoli ar wal Yr Hen Ysgol ym Mhenuwch. Gofynnir am hanner gwerth y boc o Gyngor Cymuned Llangeitho a gofynnir am y gweddill oddi wrth Gyngor Cymuned Nantgwnlle. Gan fod nifer o gynghorwyr yn teimlo hoffent dderbyn hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r peiriant di-ffib, gofynnir i'r clerwr drefnu noson yn y dyfodol agos, gan wahodd aelodau o'r cyhoedd i'r noson hefyd.
- *Request received, via Cllr Emyr Joes, from Mr Will Evans, Penuwch, for financial support to purchase a suitable box to house the defibrillator which is located on the wall of the former school in Penuwch. It is requested that Llangeitho Community Council pay half the amount, with Nantcwnlle Community Council paying the other half. As a number of councillors felt that they would like to receive some training in how to use the defibrillator machine, the Clerk was requested to organise an evening in the near future and invite people from the local community to the training session as well.*
- Trafodwyd cais cynllunio Frondeg Bach, Penuwch ond soniwyd nad oedd y lle yma ym mhlwyf Cyngor Cymuned Llangeitho.
- *A planning application for Frondeg Bach, Penuwch, was discussed but it was noted that this dwelling was not in the area of Llangeitho Community Council.*

Dyddiad a Lleoliad y cyfarfod nesaf/Date & location of next meeting

Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar 4 Tachwedd 2019, 8o.g. – Ffestri Capel Penuwch

The next meeting will be held at Penuwch Chapel Vestry, on Monday, 4 November 2019, at 8p.m.